

Ordinhad 16: Y Pwyllgor Gweithredu

Corff Cymeradwyo:	Y Cyngor
Dyddiad Cymeradwyo:	24 Ebrill, 2020
Perchennog y Polisi:	Ysgrifennydd y Brifysgol
Swyddog Polisi:	Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio
Statws y Polisi:	Diwygiwyd
Fersiwn:	2.0
Dyddiad adolygu:	Ebrill 2023

Ordinhad 16: Y Pwyllgor Gweithredu

Y Pwyllgor Gweithredu fydd uwch grŵp rheoli'r sefydliad, a bydd yn atebol i'r Cyngor.

1. Cyfansoddiad

Ex-officio: Y Llywydd ac Is-ganghellor (Cadeirydd)
 Y Dirprwy i'r Is-ganghellor
 Y Dirprwy Is-gangellorion
 Y Prif Swyddog Gweithredu/Ysgrifennydd y Brifysgol
 Y Prif Swyddog Marchnata/Is-lywydd Rhyngwladol
 Y Cyfarwyddwr Cyllid
 Cyfarwyddwr AD

2. Cylch Gorchwyl

- a) Ystyried, argymell a bod yn gyfrifol am weithredu strategaeth gyffredinol y brifysgol, gan gynnwys gosod targedau a monitro eu cyflawniad.
- b) Ystyried, argymell a gweithredu polisi cyffredinol y brifysgol.
- c) Bod yn gyfrifol am reolaeth ariannol y brifysgol, yn cynnwys dyrannu adnoddau, pennu cyllidebau a monitro perfformiad ariannol.
- d) Bod yn gyfrifol am reolaeth a gweinyddiaeth cyffredinol y brifysgol o ddydd i ddydd.
- e) Ystyried lefelau staffio mewn canolfannau adnoddau ac ysgolion/adrannau, ac ystyried a, lle bo hynny'n briodol, cymeradwyo penodiadau i swyddi newydd neu swyddi sy'n bodoli eisoes yn unol â'r adnoddau sydd ar gael, ac yn unol â chynllun strategol y brifysgol.
- f) Bod yn gyfrifol am faint, ffurf a strwythur academiaidd, (yn cynnwys sefydlu neu derfynu meysydd pwnc) ac am strwythur rheoli a chefnogi'r brifysgol.
- g) Monitro perfformiad y brifysgol ym mhob agwedd a sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i fesur cyflawniad a pherfformiad.
- h) Ymgynghori fel y bo'n briodol o fewn y sefydliad¹ i wneud penderfyniadau ar lefel uwch reolwyr mewn modd mor effeithiol ac effeithlon â phosib, a chyfathrebu'r rhain o fewn y sefydliad.
- i) Rhoi arweiniad o fewn y brifysgol.
- j) Gwneud argymhellion i'r Cyngor ac i bwyllgorau'r Cyngor ar faterion o fewn eu hawdurdodaeth.

¹Oni bai y penderfynir fel arall, sianel gyfathrebu arferol y Pwyllgor Gweithredu fydd trwy Ddeoniaid y Colegau. Ond mae'n cadw'r hawl i gynnal trafodaethau yn ôl ei doethineb gydag unigolion neu grwpiau eraill, gan gynnwys deiliaid cyllidebau eraill.

- k) Bydd y Pwyllgor Gweithredu yn adrodd i'r Cyngor.
3. Bydd gan y Pwyllgor Gweithredu y pŵer i sefydlu byrddau, grwpiau llywio neu bwyllgorau, a chytuno ar gyfansoddiad a chylch gorchwyl mewn ymgynghoriad â'r corff dan sylw.
 4. Bydd gan y Pwyllgor Gweithredu y pŵer i sefydlu grwpiau strategaeth/grwpiau tasg mewn meysydd gweithgaredd penodol i gynorthwyo gyda rheoli materion y brifysgol, a rhoi cyngor arnynt, a chyda pha bynnag gylch gorchwyl a gytunir mewn ymgynghoriad â'r grwpiau strategaeth/grwpiau tasg.